# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# CYNGOR CYMUNED TALSARNAU

# 2025/2026

## GAIR GAN Y CADEIRYDD – Y CYNG. LISA BIRKS

Fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Talsarnau am y ddwy flynedd diwethaf, mae'n bleser gennyf gyflwyno pedwerydd adroddiad blynyddol y Cyngor I chi. Mae'r adroddiad hon yn cofnodi'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn 2025/26 a sut rydym yn gweithio fel Cyngor gyda'r gymuned sydd yn ymestyn o'r Ynys draw at Landecwyn a gwahanol bartneriaid i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal i wneud y gymuned yn le hyd yn oed gwell i fyw ynddi. Pentref gweddol fach I'w Talsarnau ei hun ar weledigaeth sydd gennym fel Aelodau y Cyngor yw i "sicrhau bod y pentref ar ardal o gwmpas yn parhau i fod yn le braf a chroesawgar i bobl o bob oed fyw oherwydd byddant yn teimlo'n ddiogel, a bydd ganddynt gyfleodd i fod yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol ac i gymdeithasu a gweithio mewn amgylchedd o ansawdd. Mae Talsarnau ar ardal o'I amgylch yn le sy'n croesawu ymwelwyr ac yn cyd-fyw gyda hwy'n rhwydd." Bwriad yr adroddiad yw rhoi blas o waith y Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn diwethaf a sut mae'r Cyngor yn hyrwyddo bywyd i drigolion o bob oed, perchnogion busnesau, cymdeithasau ac ymwelwyr i'r pentref. Rydym yn cydnabod nid yw hyn wedi bod yn hawdd mewn hinsawdd heriol i bawb ac 'rydym yn ceisio ein gorau ac wedi ymrwymo i gyd-weithio gyda'r gymuned a phartneriaid i wireddu'r weledigaeth. Er bod digon o heriau i ni fel Cyngor Cymuned, rydym wedi llwyddo i gyflawni nifer o brosiectau cyffroes yn ystod y flwyddyn diwethaf ar gobaith yw llwyddo gyda mwy o brosiectau yn ystod y flwyddyn sydd I ddod. Mae hi yn fraint cael bod yn Gadeirydd y Cyngor Cymuned.

**Aelodaeth**

Cyng. Lisa Birks (Cadeirydd)

Cyng. Dewi Tudur Lewis (Is-Gadeirydd)

Cyng. Sian Mai Ephraim

Cyng. Ann Jones

Cyng. John Richards (ymddeol Ionawr 2026)

Cyng. Owen Lloyd Roberts

Cyng. Margaret Roberts

Cyng. Eifion Williams

Cyng. Eluned Williams

Cyng. Ffion Williams

Mae dau Gynghorydd yn cynrychioli'r ardal ar Gyngor Gwynedd sef y Cyng. Annwen Hughes ar Cyng. Gwynfor Owen.

Yn mis Ionawr fe fu y Cyng. John Richards ymddeol fel Aelod o'r Cyngor Cymuned ag oherwydd bod ddim etholiad yn cael ei gynnal mae y Cyngor yn dal yn y broses o gyfethol aelod Newydd I'r Cyngor.

**Staff**

Mae gan y Cyngor un aelod o staff, Annwen Hughes, sy'n Glerc a Swyddog Cyllid. Mae hi'n gweithio'n rhan-amser. Gellir cysylltu â'r Clerc drwy e-bost annwen@btconnect.com, llythyr I Crafnant, Llanbedr, Gwynedd LL45 2PH neu ffonio 01341241613/07919582741.

**Cyfarfodydd**

Cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor bob yn ail fis ag eithro mis Awst yn y neuadd bentref, Talsarnau ar y trydydd nos Lun.

## Safle We

Erbyn hyn mae gan y Cyngor safle we eu hunain a mae gwybodaeth am y Cyngor Cymuned gan gynnwys rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion polisïau a newyddion ar safle We'r Cyngor: www.talsarnau.co.uk

## AELODAETH ALLANOL

Mae'r Cyngor Cymuned yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff cynrychioliadol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.
Mae'r Cyngor Cymuned yn ethol Aelodau i gyrff allanol eraill, sef Pwyllgor y neuadd bentref, a Chorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Talsarnau sydd yn rhan o Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Afon Ddwyryd.

## Atebolrwydd

Mae'r Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu cod ymddygiad aelodau a chedwir cofrestr o fuddiannau ar gyfer pob aelod. Mae gofyn i'r Cynghorwyr ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddynt am eitemau i'w trafod ar gychwyn bob cyfarfod a bydd y rhain yn cael ei nodi yn y cofnodion.
Mae cyfrifon y Cyngor Cymuned yn cael eu harchwilio gan archwilydd mewnol ac allanol yn flynyddol. Mae'r archwiliad mewnol yn cael ei gynnal gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd, a'r Archwiliad Allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## CYLLID A GWARIANT

Mae'r Cyngor Cymuned yn gosod cyllideb yn flynyddol ac yn monitro gwariant yn erbyn y gyllideb drwy gydol y flwyddyn ariannol drwy dderbyn adroddiad rheolaidd gan y Clerc. Prif ffynhonnell incwm y Cyngor Cymuned yw'r praesept sy'n cael ei osod yn flynyddol a'i gyflwyno i Gyngor Gwynedd ym mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r praesept yn cael ei gasglu ar ran y Cyngor Cymuned gan Gyngor Gwynedd a dyma'r unig ffynhonnell refeniw treth sydd ar gael i

Gynghorau Tref a Chymuned. Mae'r broses o benderfynu ar lefel y praesept yn cynnwys paratoi cyllideb ddrafft ar sail sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned drwy ystyried y costau tebygol, cynlluniau ar gyfer prosiectau, pennu swm ar gyfer cyfraniadau - o fewn y canllawiau a gyhoeddir yn flynyddol - ac unrhyw faterion ariannol eraill. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r gwarchodfeydd a ddelir gan y Cyngor Cymuned i sicrhau bod praesept priodol yn cael ei osod. Cafodd lefel y praesept ei godi o £22,000 I £34,000 ar gyfer 2025/26.

| Incwm a Gwariant 2025/26 | Incwm | Gwariant |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Llogau Banc | 393.90 | |
| Precept | 34,000.00 | |
| Incwm y Fynwent | 247.00 | |
| Rhent Garej Capel y Graig | 300.00 | |
| Ad-daliad torri llwybrau | 479.95 | |
| Ad-daliad T.A.W | 1,392.00 | |
| Grant Mantell Gwynedd | 6,015.00 | |
| Grant Gwynedd Ni | 4,664.00 | |
| | | |
| Llwybrau | | 825.00 |
| Gwariant y Mynwentydd | | 150.00 |
| Gosod ffens Newydd yn mynwent Llandecwyn | | 1,105.00 |
| Torri Gwair y Mynwentydd | | 2,220.00 |
| Cynnal a chadw Gardd y Rhiw | | 400.00 |
| Petrol i dorri gwair cae chwarae a maes parcio | | 80.00 |
| Archebu a gwagio bin yn y cae chwarae | | 350.38 |
| “Wet Pour” ger y ddwy fynedfa I’r cae chwarae | | 7,218.00 |
| Meinciau Newydd ger groesffordd Cilfor | | 4,620.00 |
| Arwyddion ar y meinciau Newydd | | 52.80 |
| Cyflog y Clerc | | 1,903.90 |
| Costau y Clerc | | 526.57 |
| Costau Swyddfa | | 500.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Treth ar Gyflog y Clerc | | 475.80 |
| Cwblhau PAYE ar lein | | 228.00 |
| Lwfans Cynghorwyr | | 780.00 |
| Llogi Ystafell gyfarfod | | 210.00 |
| Cyfraniadau | | 900.00 |
| Pwyllgor Neuadd Bentref | | 2,000.00 |
| Insiwrant y Cyngor | | 1,116.76 |
| Tal aelodaeth Un Llais Cymru | | 147.00 |
| Archwiliad Offer Chwarae | | 360.00 |
| Archwiliad mewnol 2024/25 | | 408.00 |
| Archwiliad allanol 2021/22 | | 200.00 |
| Padiau Newydd I'r defibs | | 147.60 |
| Amrywiol | | 40.00 |
| Costau Banc | | 38.00 |
| | £47,491.85 | £27,002.81 |

## CYLLIDEB

Presept y Cyngor yw £34,000 a mae yn cael ei glustnodi fel a ganlyn:-

Mae y Cyngor yn gyfrifol am dorri gwair amrywiol lwybrau cyhoeddus yn yr ardal beth bynnag ddwy waith y flwyddyn ag hefyd yn gyfrifol am dorri gwair a chynnal y mynwentydd sydd ger Eglwys Llanfihangel y Traethau ag Eglwys Llandecwyn. Hefyd mae y Cyngor yn talu I gynnal a chadw Gardd y Rhiw. Y gost o wneud y gwaith hyn I gyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon oedd £3,445.

Yn cyfranu I wahanol fudiadau yn yr ardal yn flynyddol a wedi cyfranu £200 I CFFI Meirionnydd a £200 I gronfa Plac Porffor er Cof am Gwynedd Vaughan. Mae £2,000 yn flynyddol yn cael ei gyfranu at gadw y Neuadd Bentref oherwydd bod y Cyngor Cymuned yn Ymddiredolwyr arni ag oherwydd bod Cylch Meithrin Talsarnau wedi cau nid yw y

Cyngor yn cyfranu at hwn bellach. Mae y cyfraniad at y Neuadd Bentref yn cael ei gynnwys yn precept y Cyngor.

Eleni mae y Cyngor wedi cwblhau y gwaith o osod “wet pour” wrth y ddwy fynedfa I’r parc chwarae maen’t wedi ei ddatblygu rhai blynyddoedd yn nol bellach oherwydd bod dwr yn casglu ger y ddwy fynedfa a mae y gwaith hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr I’r parc chwarae. Oherwydd bod y gwaith hwn wedi cael ei wneud mae fwy o ddefnydd yn cael ei wneud o’r parc chwarae erbyn hyn. Fe gafwyd grant gan Mantell Gwynedd o £6,015 tuag at gario allan y gwaith hyn.

Hefyd mae y Cyngor wedi cael grant gan gynllun Gwynedd Ni o £4,644 I gario allan gwaith o osod meinciau Newydd ynghyd a dau planter blodau ger groesffordd Cilfor ag hefyd mae y Cyngor yn y broses o osod hysbysfwrdd Newydd yn y lleoliad hwn. Fe gafodd y ddwy fainc oedd yn y lleoliad hwn yn flaenorol eu adnewyddu gan gwmni Hochtief a’I ail gosod mewn lleoliadau Newydd yn yr ardal.

# Gwaith y Cyngor a cyfrifoldebau

## Rheoli eiddo

1 parc chwarae sef Cae Gwynfor John

Mynwent Eglwys Llanfihangel y Traethau

Mynwent Eglwys Llandecwyn

Y Llwybrau Cyhoeddus

Gardd y Rhiw

Llochesi Bws yn yr ardal

Seddi Cyhoeddus

Hysbysfyrddau

## Gweinyddiaeth

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel archwiliwr Mewnol 2025/26

Lwfansau – adolygu 6 Cynghorydd wedi derbyn lwfans o £156

Gwefan y Cyngor

Cadw asesiad risg.

Cadw cofnod buddiant